**Panel Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg**

***Welsh Language Advisory Panel***

**19 Mehefin 2025 am 2yp**
**Cyfarfod Aml-Leoliad**

**COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU**

**Yn bresennol:**

| | | |
|---|---|---|
| Cyng. Glynog Davies | GD | Plaid Cymru |
| Cyng. Peter Hughes Griffiths | PHG | Plaid Cymru |
| Cyng. Carys Jones | CJ | Plaid Cymru |
| Cyng. Sue Allen | SA | Annibynnol |
| Cyng. Andrew Davies | AD | Plaid Cymru |
| **Swyddogion** | | |
| Llinos Evans | LLE | Rheolwr Polisi a Chynnwys |
| Sioned Raymond | SR | Swyddog Polisi a Phartneriaeth |
| Abigail Cole | AC | Swyddog Mewnwelediad Data |
| Luke Howells | LH | Rheolwr Perfformiad |

| Rhif | Testun a phwyntiau gweithredu | Yn gyfrifol |
|---|---|---|
| 1. | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>Croesawodd Cynghorydd Glynog Davies pawb i'r cyfarfod.<br>Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyng. Jean Lewis, y Cyng. Edward Skinner a Gwyneth Ayers. | |
| 2. | **Data Cyfrifiad 2021**<br>Croesawyd Abigail Cole a Luke Howells i'r cyfarfod i gyflwyno Data'r Cyfrifiad a'r adroddiad manwl sydd wedi ei baratoi gan y Tîm Data a Mewnwelediad. Isod gwelir amlinelliad o brif bwyntiau'r cyflwyniad.<br>**Cefndir**<br>Mae Sir Gaerfyrddin wedi profi twf cyson yn y boblogaeth yn ystod y degawdau diwethaf. Er gwaethaf hyn, mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn y sir wedi parhau i ostwng. Mae hyn yn dangos newid demograffig a diwylliannol sy'n rhoi'r Gymraeg dan bwysau.<br>**Defnydd o'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin**<br>• Ffigurau cyffredinol: 72,838 o siaradwyr Cymraeg wedi'u cofnodi dros yr 20 mlynedd diwethaf.<br>• Amrywiad daearyddol: Mae hyfedredd yn y Gymraeg yn wahanol ar draws ardaloedd o'r sir. | |

Grwpiau oedran:

- Mae plant (3–15 oed) yn ddemograffeg allweddol, ond mae llawer ohonynt yn byw mewn cartrefi lle nad oes rhiant yn siarad Cymraeg.
- Mae'r defnydd o'r Gymraeg yn gostwng yn sylweddol ymhlith cenedlaethau hŷn, yn enwedig ar ôl 64 oed.

**Siaradwyr Cymraeg yn ôl Galwedigaeth a Diwydiant**

Mae cyfrannau uwch o siaradwyr Cymraeg i'w gweld yn:

- Galwedigaethau proffesiynol
- Crefftau medrus
- Y sector addysg

Mae hyn yn awgrymu bod sectorau cyflogaeth sy'n gysylltiedig â sgiliau, hyfforddiant a dysgu yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddefnydd o'r Gymraeg.

**Pwysau Demograffig**

- Cafodd dros 25% o boblogaeth Sir Gaerfyrddin eu geni y tu allan i Gymru.
- Bu cynnydd o 166% mewn mewnfudo i'r sir. Mae'r newidiadau hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar y Gymraeg fel iaith gymunedol.

**Sgiliau Iaith Gymraeg**

- Dywedodd 85,287 o drigolion nad oedd ganddynt *unrhyw sgiliau Cymraeg*.
- Dywedodd 20,036 o drigolion (10.96%) eu bod yn gallu *deall Cymraeg llafar yn unig*.
- Mae amrywiadau yn bodoli yn ôl oedran, daearyddiaeth a rhyw:
    - Lefelau uwch o ddealltwriaeth oddefol ymhlith menywod na dynion.
    - Mae grwpiau iau a chanol oed yn dangos mwy o botensial ar gyfer dealltwriaeth rannol.

**Casgliad**

Mae Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn galon i'r Gymraeg yng Nghymru, ond mae'r data yn tynnu sylw at ddirywiad parhaus mewn defnydd gweithredol, ochr yn ochr â phwysau demograffig o fewnfudo. Er bod addysg a galwedigaethau penodol yn darparu cyfleoedd i gynnal a hyrwyddo'r iaith, mae'r darlun cyffredinol yn arwydd o'r angen am gefnogaeth barhaus ac ymyriadau wedi'u targedu i gadw'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw yn y sir.

Diolchodd aelodau i Abigail am ei chyflwyniad trylwyr a defnyddiol. Tanlinellodd Cynghorydd Andrew Davies bwysigrwydd cadw pobl ifanc yn y Sir a bod dyletswydd arnom fel aelodau i weithredu a gwneud gymaint a gallwn fel Panel.

Yn sgil y cyflwyniad trafodwyd gwahodd Dr Elen Bonner i'r cyfarfod nesaf. Mae Elen wedi gwneud llawer o waith ymchwil yn y maes hwn yn benodol edrych ar bobl ifanc yn mudo a gadael eu cadarnleoedd. Yn ddiweddar maent wedi lawnsio pecyn recriwtio gweithlu dwyieithog i gynnig cyngor ac arweiniad i gyflogwr sy'n ceisio mynd i'r afael â heriau recriwtio gweithlu dwyieithog.

| | | |
|---|---|---|
| 3. | **Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2024-25**<br><br>Esboniwyd fod Adroddiad Blynyddol y Gymraeg wedi cael ei baratoi a rhannwyd copi ymlaen llaw gydag aelodau. Mae'r adroddiad yn dangos cynnydd parhaus wrth weithredu Safonau'r Gymraeg, ehangu cyfleoedd dysgu i staff, cefnogi busnesau a chymunedau drwy ARFOR, a defnyddio cyllid ychwanegol i gryfhau'r Gymraeg yn y gweithle ac yn y gymuned.<br><br>Mae'r Cyngor yn wynebu cynnydd yn nifer y staff heb sgiliau Cymraeg (Lefel 0), o bosib oherwydd recriwtio newydd. Ar yr un pryd, mae'n parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn dysgu Cymraeg ac yn ehangu cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i staff. Mae'r rhan fwyaf o hyfforddiant yn parhau i gael ei ddarparu'n ddwyieithog, er hynny, mae sesiynau yn tueddu troi yn rhai cyfrwng Saesneg.<br><br>Cafwyd trafodaeth am y Strategaeth Sgiliau Iaith gan amlinellu'r pwyntiau allweddol isod wrth symud ymlaen:<br><br>• Sicrhau mwy o recriwtio dwyieithog a chynllunio gweithlu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg.<br>• Ehangu cyfleoedd prentisiaethau a datblygu staff drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>• Gwreiddio defnydd y Gymraeg yn ddyddiol drwy brosiectau peilot a theclynnau fel *ARFer*.<br>• Adeiladu diwylliant sefydliadol dwyieithog i wneud newid yn gynaliadwy.<br>• Cysylltu'r Strategaeth Sgiliau Iaith newydd â Strategaeth Recriwtio i greu dull cydlynol.<br><br>Diolchwyd i'r swyddogion am baratoi'r adroddiad. | |
| 4. | **Diweddariad Grant Llywodraeth Cymru**<br><br>Darparwyd diweddariad ar brosiectau Grant Llywodraeth Cymru gan Llinos Evans. Esboniwyd fod adroddiad terfynol yn cael ei baratoi a fydd yn cael ei rhannu yng nghyfarfod nesaf y Panel.<br><br>Amlinellwyd y prosiectau rhan 1 a 2 sydd nawr yn derfynol ac wedi cael ei gytuno yn derfynol:<br><br>**RHAN 1**<br><br><u>Amcan 1: Cynnydd mewn siaradwyr Cymraeg</u><br><br>• Cynnig cefnogaeth ymarferol, arbenigol i ysgolion i symud ar hyd y continwwm ieithyddol, yn benodol yn ardal Castell Newydd Emlyn ac yn unol â'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.<br><br><u>Amcan 2: Cynnal balchder, defnydd a hyder trigolion y Sir yn y Gymraeg</u><br><br>a) Cynnal astudiaeth dichonolrwydd i gynnal Gŵyl gerddoriaeth/roc Sir Gâr<br><br>"b) Sesiynau cerddoriaeth Cymraeg / dwyieithog mewn tafarndai / neuaddau / lleoliadau cymunedol ar draws y sir"<br><br><u>Amcan 3: Y Gymraeg yn norm yn y gweithle a'r gweithlu</u> | |

- Sesiynau Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog gyda Hugh Irwin. Cynhelir sesiynau ar gyfer Rheolwyr trydydd a pedwaredd haen yn y tîm Rheoli Pobl + Digidol yn ogystal ag aelodau cabinet a'r tîm Rheoli Corfforaethol. Roedd y sesiynau yn rhoi blas ar greu'r hinsawdd ar gyfer newid, ymgysylltu a chynllunio ar gyfer y dyfodol.
- Strategaeth Sgiliau Iaith - cefnogaeth gan Nia Bennett, o gwmni Effectus HR wrth adolygu Strategaeth Sgiliau Iaith a Strategaeth Recriwtio'r Cyngor. Cynnal dadansoddiad o sefyllfa gyfredol y cyngor wrth recriwtio a chynllunio gweithlu. Dadansoddi data recriwtio a hyfforddiant er mwyn cynorthwyo cynllunio gweithlu.
- Prosiect Ymgysylltu Gweithlu'r Dyfodol gyda ffocws penodol ar Brentisiaethau a Graddedigion cyfrwng Cymraeg – darn o waith ymchwil gyda Llewelyn a Hanna Hopwood er mwyn sefydlu gwaelodlin ar gyfer cynllunio gweithlu'r dyfodol.

<u>Amcan 4: Cymunedau sy'n fynnu</u>

- Creu cronfa ariannol i rymuso cymunedau blaenoriaeth uchel i ddatblygu prosiectau sy'n ymateb i ganlyniadau Cyfrifiad 2021
- Datblygiadau tai – astudiaeth i edrych ar batrymau ac effaith ar gymunedau'r sir lle gwelir datblygiadau tai a'r cyswllt pellach mae hyn yn cael ar y gadwyn gwerthu tai pellach o fewn y sir

**RHAN 2**

<u>Amcan 1: Cynnydd mewn siaradwyr Cymraeg</u>

- Cynnig cefnogaeth ymarferol, arbenigol i ysgolion i symud ar hyd y continwwm ieithyddol, yn unol â'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg:
    - Clwstwr Ysgol Maes y Gwendraeth"
- Cefnogaeth sector addysg
- Meithrin gallu hyrwyddo addysg Gymraeg drwy'r gwyddorau ymddygiadol

<u>Amcan 2: Cynnal balchder, defnydd  a hyder trigolion y Sir yn y Gymraeg</u>

- Prosiect peilot i dreialu ffordd o weithio ym maes chwaraeon gyda ffocws ar gefnogaeth i glybiau rygbi er mwyn datblygu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn adrannau iau ( a hŷn) a chlybiau
- Prosiect peilot i dreialu ffordd o weithio trwy gefnogi Academi Arweinyddion Chwaraeon o fewn chwaraeon ffocws y sir (Athletau, Pêl-fasged, Beicio a Phêl-rwyd) er mwyn datblygu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y clybiau
- Ychwanegiad at brosiect a ariannwyd yn rhan 1 i Fentrau Iaith y Sir i alluogi cynnal mwy o sesiynau cerddoriaeth yn dilyn llwyddiant y rhai cyntaf.

<u>Amcan 3: Y Gymraeg yn norm yn y gweithle a'r gweithlu</u>

- Ychwanegiad at brosiect a ariannwyd yn rhan 1 yn ffocysu ar newid arfer/ymddygiad tuag at y Gymraeg o fewn gweithlu'r Cyngor

<u>Amcan 4: Cymunedau sy'n fynnu</u>

| | | |
|---|---|---|
| | • Ymestyn Prosiect BRO i weithio'n benodol gyda chymunedau yn ardal Dyffryn Aman er mwyn datblygu dealltwriaeth o'r gofynion yn yr ardal a datblygu cynllun gweithredu aml-asiantaeth er mwyn symud ymlaen. | |
| **4.** | **Cofnodion cyfarfod 20 Ionawr 2025**<br><br>Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir. | |
| | **Unrhyw fater arall**<br><br>Ni thrafodwyd unrhyw faterion pellach.<br><br>*Dyddiadau'r cyfarfod nesaf:*<br><br>• *11 Medi am 2 y prynhawn*<br>• *11 Rhagfyr am 2 yn y prynhawn* | |